**Canllaw Diogelwch - Cynlluniau Personol Gadael Mewn Argyfwng (PEEP)**

# 1 Cyflwyniad

Mae gan berchnogion, meddianwyr a rheolwyr ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod pawb sy'n defnyddio neu'n ymweld â'u hadeiladau yn gallu cyrraedd "*Man Cwbl Ddiogel"* mewn argyfwng diogelwch tân. Mae deddfwriaeth yn disgrifio Man Cwbl Ddiogel fel "lleoliad, draw o'r safle, lle nad yw pobl mewn perygl dybryd o effeithiau tân".
Mae Cynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng, neu PEEP, yn "gynllun dianc" pwrpasol ar gyfer unigolion a allai gael anhawster yn gadael adeilad i *Fan Cwbl Ddiogel* heb gefnogaeth na chymorth gan eraill.

# 2 Pwy sydd angen Cynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng?

<u>Gallai</u> unrhyw aelod o gymuned y Brifysgol (staff, myfyrwyr, ymwelwyr) sydd ag un neu fwy o'r canlynol fod angen PEEP:

- Cyflyrau sy'n effeithio ar symudedd
- Cyflyrau sy'n effeithio ar y golwg
- Cyflyrau sy'n effeithio ar y clyw
- Cyflyrau niwroamrywiol neu iechyd meddwl
- Amgylchiadau eraill a allai effeithio ar allu person i adael (gallai hyn gynnwys pobl â chyflyrau iechyd sylfaenol, neu sy'n feichiog neu sydd ag anaf tymor byr, fel coes wedi'i thorri).

Y cwestiwn allweddol sy'n penderfynu a oes angen PEEP yw "*Oes modd i chi adael adeilad heb gymorth mewn ffordd weddol brydlon yn ystod argyfwng ?"* Os mai "NA" yw'r ateb, mae'n debygol y bydd angen Cynllun Personol arnoch.

# 3 Sut mae cael PEEP?

**Aelodau Staff:** Os oes angen cymorth arnoch i adael adeilad, dros dro yn unig hyd yn oed, mae angen i chi roi gwybod i'ch rheolwr llinell. Eich rheolwr llinell sy'n gyfrifol am weithio gyda chi i gwblhau eich PEEP. Does dim angen i chi ddatgelu unrhyw wybodaeth feddygol bersonol ond gofynnwn i chi roi gwybod i ni am unrhyw beth sy'n effeithio ar eich gallu i adael adeilad.

**Myfyrwyr Newydd a Darpar Fyfyrwyr:** Rydym yn annog darpar fyfyrwyr i ddatgelu unrhyw anableddau neu gyflyrau iechyd fel rhan o'r broses ymgeisio. Tîm Anabledd Cymorth i Fyfyrwyr sy'n gyfrifol am adnabod lle mae angen i'r Brifysgol roi trefniadau penodol ar waith i gefnogi myfyrwyr newydd. Bydd y Gwasanaeth Cymorth i Fyfyrwyr yn penderfynu a yw'n debygol y bydd angen PEEP. Byddwn yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'ch adran academaidd. Ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw fanylion meddygol preifat na phersonol oni bai eich bod yn rhoi caniatâd penodol i'r wybodaeth hon gael ei datgelu.

Mae siart llif i ddisgrifio'r broses ar diwedd y ddogfen.

Bydd y Gwasanaethau Hygyrchedd a Chynhwysiant yn:

a) dod o hyd i'r myfyrwyr neu'r ymgeiswyr a allai fod angen PEEP trwy broses ymgeisio UCAS (Gwasanaeth Derbyn Prifysgolion a Cholegau) neu ddull ymgeisio arall.
b) Monitro er mwyn dod o hyd i fyfyrwyr sy'n anabl a rhoi gwybod i Bennaeth yr Adran, y swyddfa amserlenni a'r swyddfa lety (lle bo hynny'n briodol), neu Pennaeth Gweithrediadau Academaidd os oes angen trefniadau ychwanegol,
c) darparu "Holiadur Hygyrchedd & Diangfa" a gofyn i'r person anabl ei ateb (Atodiad 1)
d) cydlynu'r dull o weithredu cynhadledd achos (gan gynnwys trefnu cyfarfodydd) a sicrhau bod adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal,
e) bod ar gael i roi mwy o gyngor i adran neu gyfadran ar faterion anabledd,
f) sicrhau bod cofnodion priodol yn cael eu cadw ar ffeil bersonol yr unigolyn,
g) cynghori ar faterion yn ymwneud â hygyrchedd,
h) llenwi'r ddogfennaeth angenrheidiol ar gyfer PEEP myfyriwr (ffurflen dempled Atodiad 2).
i) Sicrhau fod y PEEP yn cael ei adolygu yn ôl yr angen (e.e., os yw'r anabledd yn gwaethygu neu os oes newid lleoliad

Bydd y Gwasanaethau Hygyrchedd yn sicrhau bod y Pennaeth Adran neu'r Pennaeth Gweithrediadau Academaidd yn cael gwybod am unrhyw fyfyriwr sydd wedi dynodi bod angen PEEP.  Os yw Pennaeth Adran yn credu y gallai myfyriwr fod angen PEEP, dylid gwneud yn siŵr trwy gysylltu â'r myfyriwr dan sylw.

**Myfyrwyr sy'n byw yn Llety'r Brifysgol:** Mae gennym amrywiaeth o lety hygyrch ar draws y campws ac yn ein hanheddau oddi ar y safle. Anogir y myfyrwyr sy'n gwneud cais am lety'r Brifysgol i ddatgelu unrhyw gyflyrau iechyd neu anableddau fel rhan o'r broses ymgeisio er mwyn i ni allu bodloni eich anghenion yn y ffordd orau bosib yn ystod eich cyfnod yn y Brifysgol. Bydd Cymorth i Fyfyrwyr yn hysbysu'r Swyddfa Llety pan ddatgelir cyflwr iechyd neu anabledd sy'n debygol o fod angen PEEP. Y Swyddfa Llety sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob myfyriwr sy'n datgan cyflwr iechyd neu anabledd yn cael PEEP sy'n cynnwys eu llety preswyl.

**Myfyrwyr Presennol:** Gall myfyrwyr presennol ddatgelu anableddau neu gyflyrau iechyd ar unrhyw adeg i staff y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr neu i aelod o'u hadran academaidd, fel eu Tiwtor Personol neu Arolygwr. Yna byddant yn gweithio o fewn y trefniadau adrannol y cytunwyd arnynt i gysylltu â chi a'r Gwasanaeth Cymorth i Fyfyrwyr fel bod modd datblygu cynllun Mynediad Anabledd neu PEEP.

**Ymwelwyr Tymor Hir:** Efallai y bydd angen i ymwelwyr tymor hir sy'n datgelu cyflwr iechyd neu anabledd, megis academyddion sy'n ymweld â'r brifysgol, gael PEEP. Bydd eu person cyswllt yn y Brifysgol yn gweithredu fel rheolwr llinell a bydd yn gyfrifol am weithio gyda'r ymwelydd i benderfynu a oes angen PEEP. Dylid dilyn y broses PEEP a ddilynir ar gyfer aelodau staff a myfyrwyr.

Cofnodir pob PEEP ar ffurflen safonol (gweler atodiad 2).

**Aelodau'r Cyhoedd sy'n Defnyddio Cyfleusterau'r Brifysgol yn Rheolaidd**
Yn achos aelodau o'r cyhoedd y gwyddys eu bod yn defnyddio cyfleusterau'r Brifysgol yn rheolaidd, megis aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio cyfleusterau'r Ganolfan Chwaraeon, bydd yr adran berthnasol yn cytuno ar PEEP gyda'r unigolyn dan sylw gyda'r ffurflen safonol a ddarperir yn Atodiad 2.

I aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio canolfan y Celfyddydau yn rheolaidd, mae'r adeilad hwn yn rhan o gynllun “Hynt”. Cynllun mynediad cenedlaethol newydd yw Hynt sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydol yng Nghymru i sicrhau bod cynnig cyson ar gael i ymwelwyr sydd ag amhariad neu anghenion mynediad penodol, a'u Gofalwyr neu Gynorthwywyr Personol.

**Ymwelwyr Tymor Byr:** Ar gyfer ymwelwyr tymor byr, fel darlithwyr gwadd neu fynychwyr digwyddiadau'r Brifysgol, megis diwrnodau agored, neu'r rhai sy'n ymweld yn achlysurol, nid yw'n ymarferol llunio PEEP unigol. Mae'r Brifysgol yn datblygu cyfres o “Weithdrefnau Cyffredinol Gadael Mewn Argyfwng (GEEPs)” sy’n cynnwys yr adeiladau yr ymwelir â hwy amlaf. Rhestrir trefniadau Gadael Mewn Argyfwng Cyffredinol ar gyfer adeiladau'r brifysgol yn Atodiad 3.

## 4 Y Broses PEEP

Pan fydd posibilrwydd bod angen PEEP, bydd eich rheolwr llinell (cyflogeion), y Tîm Anabledd Cymorth i Fyfyrwyr (myfyrwyr) neu Gyswllt yn y Brifysgol (ymwelwyr tymor hir) yn gweithio gyda chi i lenwi ffurflen PEEP safonol.

I ddechrau, gofynnir i chi nodi a oes gennych chi unrhyw gyflyrau iechyd, anableddau neu bryderon eraill fydd yn effeithio ar eich gallu i gyrraedd Man Cwbl Ddiogel os bydd argyfwng. Os byddwch chi'n ateb yn gadarnhaol i bob un o'r cwestiynau hyn, nid oes angen unrhyw gamau pellach. Bydd hyn yn cael ei gofnodi ar eich ffurflen PEEP a bydd y cofnod yn cael ei roi ar ffeil.

Os byddwch chi'n ateb "na" i un neu fwy o gategorïau, gofynnir i chi lenwi'r adrannau perthnasol o'r ffurflen, fel a ganlyn. Nid oes angen i chi roi unrhyw wybodaeth breifat na chyfrinachol er mwyn nodi unrhyw gyflyrau meddygol neu anableddau penodol; dim ond adnabod pa gymorth sydd ei angen arnoch chi yw ein bwriad.

**Pa adeiladau ydych chi'n eu defnyddio yn fwyaf rheolaidd?**
Mae angen i'r PEEP gynnwys yr adeiladau hynny y byddwch yn eu defnyddio'n rheolaidd tra byddwch ar y safle. Ar gyfer gweithwyr ac ymwelwyr Tymor Hir, bydd hyn yn cynnwys eich swyddfa ac unrhyw adeiladau y mae'n ofynnol i chi ymweld â nhw'n rheolaidd i fynychu cyfarfodydd neu ddysgu neu i gyflawni rhannau sylweddol eraill o'ch gwaith. Bydd angen i PEEP myfyrwyr gynnwys pob man a ddefnyddir yn rheolaidd ar gyfer astudio ac/neu ymchwil. Bydd y trefniadau Gadael Mewn Argyfwng Cyffredinol a restrir yn Atodiad 3 yn rhoi gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael yn ein hadeiladau. Mae PEEP generig wedi ei ysgrifennu ar gyfer y llyfrgell (gweler Atodiad 4); gellir ymgorffori hwn i PEEP penodol lle bo hynny'n berthnasol.

Mae nifer o adeiladau "cyhoeddus", fel Canolfan y Celfyddydau, Tamed Da, lle mae wardeiniaid tân lleol yn sicrhau bod mynediad gwastad ac yn gofalu am anghenion brys. Mae rhestr lawn o'r lleoliadau yn Atodiad 5. Nid oes angen cynnwys rhain yn y PEEP.

## Cymorth gyda Materion a Ganfyddir yn y PEEP:

### 5 Cymorth i bobl nad ydynt yn gallu clywed y larwm tân:

Mae gan gampws y Brifysgol system rybuddio i bobl fyddar (Deaf Alerter) i hysbysu pobl sy'n fyddar neu sydd ag amhariad ar eu clyw bod y larwm tân yn seinio. Mae'r system hon ar gael i'r aelodau staff, y myfyrwyr a'r ymwelwyr sydd ei angen.

Os bydd larwm tân yn seinio, bydd y system yn eich rhybuddio trwy declyn bychan sy'n dirgrynu. Mae'r system yn dibynnu ar drosglwyddyddion sydd wedi eu cysylltu â phaneli tân unigol yn adeiladau'r campws. Pan gaiff y paneli eu hactifadu, byddant yn anfon neges destun i'ch peiriant galw yn nodi ym mha adeilad mae'r larwm tân yn seinio.
Gallai hyn fod yn adeilad rydych chi ynddo neu'n adeilad cyfagos er mwyn sicrhau bod pobl ag anawsterau clyw yn ymwybodol o'r sefyllfa. Dim ond os yw'r unigolyn y tu mewn i adeilad neu gerllaw y bydd y teclyn yn anfon rhybudd, nid ar gyfer pob adeilad ar y campws.

Caiff y teclynnau eu gosod a'u cynnal gan yr adran Ystadau. Mae gwybodaeth am y system a sut i gael teclyn ar gael yn: https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/fire-safety/deaf-alerter/

Mae yna ddyfeisiau ychwanegol, fel clustogau sy'n dirgrynu, y gellir eu defnyddio yn llety'r brifysgol. Os bydd angen y dyfeisiau hyn, caiff ei godi o fewn y PEEP gan y Swyddfa Llety.

### 6 Cefnogi pobl â chyflyrau golwg

Bydd faint o gymorth y gallai fod ei angen ar bobl â chyflyrau golwg yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr amhariad. Mae angen ystyried y ffyrdd gorau o roi gwybodaeth am ddiogelwch tân. Gallai hyn gynnwys rhoi hysbysiadau diogelwch tân mewn print bras, braille neu ar ffurf arall. Bydd y person yr ysgrifennir PEEP ar ei gyfer yn gwybod beth sy'n gweithio orau iddynt yn gyffredinol a bydd modd iddynt eich arwain.

Pan fydd myfyrwyr angen gwybodaeth mewn fformat gwahanol, cysylltwch â Gwasanaeth Anabledd Cymorth i Fyfyrwyr a bydd y gefnogaeth briodol yn cael ei threfnu ar eich cyfer. Pan fydd angen gwybodaeth bwrpasol ar staff, cysylltwch ag Adran Adnoddau Dynol (AD) y Brifysgol a byddant yn rhoi cyngor ar yr opsiynau posib ac ar y cyllid sydd ar gael.

Mae gan rai pobl â chyflyrau gweledol ddigon o olwg i weld arwyddion dianc tân ac i wneud eu ffordd yn annibynnol at allanfeydd tân. Efallai y bydd angen cymorth ar bobl sydd â chyflyrau golwg mwy difrifol i ddod o hyd i'w ffordd er mwyn gadael mewn argyfwng. Efallai y bydd angen neilltuo un neu fwy o bobl i ddarparu'r cymorth hwn. Os oes gan berson ofalwr penodedig, gallai'r gofalwr ddarparu'r cymorth hwn. Rôl cyfaill yw rhoi cymorth i gyrraedd at allanfa dân.

Mae gan bob adeilad nad yw'n adeilad preswyl warden tân penodedig. Rhan annatod o'u swyddogaeth yw mynd ar gyrch i rannau dynodedig o'u hadeiladau i sicrhau eu bod yn glir cyn gadael. Byddant yn rhoi cymorth i unrhyw un a allai fod yn cael trafferth yn dod o hyd i lwybrau dianc. Fodd bynnag, ni ddylai'r cynlluniau PEEP ddibynnu ar hyn fel yr unig ffordd o

gynorthwyo pobl i ddod o hyd i lwybrau dianc. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn swyddfeydd ac adeiladau dysgu lle bo'n bosib mai dim ond yn ystod "oriau swyddfa arferol" mae wardeiniaid tân yn gweithio.

## 7 Cefnogi pobl sydd â chyflyrau symudedd (dianc gwastad)

I lawer o bobl, does dim gwahaniaeth rhwng yr heriau sy'n eu hwynebu wrth symud o gwmpas adeilad mewn argyfwng a'r heriau y maent yn eu profi wrth symud o gwmpas adeilad yn gyffredinol. Gallai hyn gynnwys problemau yn agor drysau er mwyn symud yn rhydd o amgylch adeilad. Pan nodir y math hwn o broblem, dylid cysylltu â'r adran Ystadau er mwyn iddynt gael edrych ar atebion i wella mynediad (efastaff@aber.ac.uk)

Pan fo gan bobl amhariadau dros dro, fel braich neu goes wedi'i thorri, sy'n effeithio ar eu gallu i symud o gwmpas y campws, efallai y bydd angen ystyried trefniadau dros dro i'w helpu i symud yn ddiogel o amgylch adeilad. Gallai hyn gynnwys penodi un neu fwy o gyfeillion i helpu'r unigolyn yn gorfforol i gyrraedd allanfa dân yn brydlon. Yn ddelfrydol, dylai pobl sydd ag amhariad symudedd adael ar yr un pryd â phawb arall. Fodd bynnag, gall fod yn dderbyniol ystyried aros i goridorau glirio cyn i'r unigolion symud i allanfa (naill ai gyda neu heb gymorth corfforol).

### a. Helpu pobl sy'n cael anhawster yn defnyddio grisiau.

Mae gan lawer o'n hadeiladau rannau hygyrch lle nad yw'r llwybr i'r allanfa yn wastad; yn yr achosion hyn mae'n rhaid i bobl naill ai fynd i fyny neu i lawr grisiau er mwyn cyrraedd Man Cwbl Ddiogel.

Ceir lloches ddiogel yn y rhan fwyaf o risiau tân, naill ai ar ben y grisiau neu mewn lobïau ger y grisiau, sy'n rhoi "Lle Cymharol Ddiogel" y gellir ei defnyddio i roi strategaethau gadael pwrpasol ar waith. Bydd Mannau Cymharol Ddiogel yn amddiffyn pobl rhag mwg a thân am o leiaf 30 munud.

Mewn rhai achosion, efallai y bydd modd i bobl sydd â chyflyrau symudedd ddefnyddio'r grisiau yn ddiogel os ydynt yn glir. Gallai hyn gynnwys rhai defnyddwyr cadair olwyn sy'n gallu cerdded pellteroedd byr, neu sy'n gallu dod i lawr y grisiau ar eu heistedd. Gall pobl eraill gerdded heb gymorth, neu gyda rhywfaint o gymorth, ond efallai y bydd angen mwy o amser nag eraill arnynt. Ym mhob un o'r achosion hyn, gallai fod yn strategaeth dderbyniol i'r person aros mewn man diogel er mwyn i bobl eraill glirio'r grisiau cyn iddynt fynd i lawr yn annibynnol neu gyda chefnogaeth cyfaill.

Mae eraill nad oes modd iddynt ddefnyddio grisiau. Fel arfer, ni ddylid defnyddio lifftiau i adael adeilad mewn argyfwng. Fodd bynnag, mae lifft argyfwng y gellir ei ddefnyddio i symud pobl o'r adeilad yn ddiogel mewn rhai o'n hadeiladau, er enghraifft adeilad Hugh Owen. Mae'r lifft hwn wedi'i osod â chyfleusterau arbennig sy'n caniatáu i'r Tîm Diogelwch ei reoli os bydd argyfwng. Mae'r adeilad gyda'r cyfleuster hwn wedi'i ddynodi yn Atodiad 2.

Lle nad oes lifftiau argyfwng, dylai'r PEEP sefydlu a yw'n ddichonadwy defnyddio cadair achub. Fodd bynnag, ni all pob defnyddiwr cadair olwyn neu berson ag anhwylder symudedd ddefnyddio cadeiriau achub yn ddiogel; os nodir bod hyn yn broblem yn y PEEP ac na nodir unrhyw

opsiynau eraill, megis lifftiau argyfwng, yna dylid gofyn am gyngor gan y gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr a gyrfaoedd i ddechrau.

Mae systemau cyfathrebu â llais mewn argyfwng (EVC) wedi eu lleoli yn nifer o'r llochesau diogel ac mae rhaglen ar waith i osod mwy ohonynt o amgylch y campws. Mae'r systemau hyn yn sicrhau bod modd cyfathrebu rhwng y llochesau a'r pwynt rheoli tân ym mhob adeilad. Lle bynnag y lleolir panel larwm tân pob adeilad yw pwynt rheoli tân yr adeilad hwnnw; mae'r staff diogelwch yn cynnull ym mhwynt rheoli'r larwm tân pan fydd y larwm yn seinio a bydd modd iddynt ymateb i unrhyw geisiadau am gymorth. Mewn adeiladau lle nad oes systemau cyfathrebu mewn argyfwng wedi'u gosod, dylid cysylltu â'r tîm diogelwch dros y ffôn (01970 622649) i gael cymorth. Dylid dynodi'r dull o gyfathrebu â'r tîm diogelwch (lle bo angen) yn y PEEP.

Y wardeiniaid tân sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr nad oes neb yn y llochesau mewn rhannau dynodedig o'u hadeilad cyn gadael. Pan fyddant yn gweld bod rhywun yn aros am gymorth byddant yn adrodd yn ôl i'r staff yn y pwynt Rheoli Tân ac yn rhoi lleoliad yr unigolyn i'r tîm diogelwch gan nodi pa gymorth sydd ei angen arnynt. Ni ddylid dibynnu ar hyn fel yr unig ffordd o rybuddio'r tîm diogelwch bod rhywun angen cymorth.

Ar gyfer mynediad cyffredinol o amgylch y safle, mae llwybr sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn yn cael ei ddarparu o,
Fannau parcio tu ôl i Adeilad Hugh Owen, mae llwybrau hygyrch i Loriau B a C adeilad Hugh Owen o'r lleoliad hwn.
Lefel 1 Gwendolen Rees yr holl ffordd i lefel 2 Edward Llwyd. Gellir defnyddio'r llwybr hwn hefyd i symud i adeilad gwahanol os bydd larwm tân yn seinio yn yr adeilad y maent ynddo. Er enghraifft, os bydd larwm tân yn Gwendolen Rees, gall pobl adael a mynd i Bont Cledwyn neu Edward Llwyd. Ar ôl cyrraedd adeilad arall, gellir defnyddio lifftiau yn ddiogel i symud i Fan Cwbl Ddiogel.

## 8 Cynorthwyo pobl â chyflyrau niwroamrywiol / iechyd meddwl

Efallai y bydd gan rai pobl sydd angen PEEP un neu fwy o gyflyrau fydd yn effeithio ar eu gallu i brosesu ciwiau i adael neu i ymateb yn briodol i'r ciwiau hynny. Pan fydd unigolyn yn nodi bod hyn yn debygol o fod yn broblem, dylid cysylltu â'r tîm AD (ar gyfer gweithwyr ac ymwelwyr) neu'r Gwasanaeth Anabledd Cymorth i Fyfyrwyr (ar gyfer myfyrwyr) i gael cyngor. Mae Prifysgol Aberystwyth wedi'i chofrestru fel sefydliad sy'n gyfeillgar i bobl ag epilepsi. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ychwanegol a hyfforddiant drwy'r dolen ganlynol:
Home | Epilepsy Training

## 9 Ymarfer

Mae'n bwysig bod y trefniadau PEEP yn cael eu gwirio'n ymarferol i sicrhau eu bod yn briodol ac yn ateb anghenion yr unigolyn dan sylw. Dylid cynnal prawf neu ymarfer gadael adeilad er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n briodol. Ymhlith y pethau y dylid eu gwirio mae: lleoliad y llochesau; argaeledd systemau cyfathrebu mewn argyfwng (EVC); signal ffôn symudol pan ddibynnir arno i gysylltu â'r tîm diogelwch; dylid gwneud yn siŵr nad yw nodweddion ffisegol yr adeilad yn rhwystro allanfa mewn modd annisgwyl a chadarnhau lleoliad unrhyw lifft y byddai angen ei ddefnyddio i adael.

## 10 Adolygu

Dylid adolygu cynlluniau PEEP bob blwyddyn o leiaf. Bydd angen adolygu yn amlach os bydd amgylchiadau unigolyn yn newid. Pan fydd hyn yn arwain at newid sylweddol i PEEP, dylid cynnal ymarfer newydd. Dylid cynnal adolygiadau hefyd os oes rheswm i gredu bod angen newidiadau, er enghraifft o ganlyniad i ymarfer tân.

## Pwy ddylai gael copi o'r PEEP?

| Myfyriwr (nad yw'n un preswyl) | Myfyriwr Preswyl | Gweithiwr /Ymwelydd Tymor Hir |
|---|---|---|
| Yr unigolyn | | |
| Cyfaill lle penodwyd un | | |
| Staff Diogelwch | | |
| Pennaeth Gweithrediadau Academaidd (Tiwtor, arolygwr academaidd, cydlynydd Diogelwch Adran) | Rheolwr Preswyl Swyddfa Llety | Rheolwr Llinell/Cyswllt Prifysgol, Cydlynydd Diogelwch Adran. |
| Gwasanaeth Anabledd Cymorth i Fyfyrwyr | | AD |

## 11 Cymorth i Gynnal PEEP

I gael cyngor ac arweiniad ar faterion diogelwch tân cyffredinol, cysylltwch â Chynghorwyr Diogelwch Tân y Brifysgol, Swyddfa Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (hasstaff@aber.ac.uk)

I gael cyngor ar gymorth anabledd cyffredinol i weithwyr cysylltwch â'ch arweinydd Adnoddau Dynol -

I gael cyngor ar faterion hygyrchedd myfyrwyr, cysylltwch â'r Gwasanaeth Hygyrchedd - (hygyrchedd@aber.ac.uk)

**Atodiad 1**

## PRIFYSGOL ABERYSTWYTH
Holiadur Hygyrchedd Rhan A

**MYFYRIWR:**

**YMWELYDD:** **SEMESTER:** 1 ☐ 2 ☐ Tu allan i'r tymor dysgu ☐

| **1) GWYBODAETH AM YR UNIGOLYN** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enw Cyntaf:** | | | **Cyfenw:** | | **Enw(au) Canol:** | |
| **E-bost:** | | | **Rhif Ffôn Symudol:** | | | |
| | | | | | | |
| **Cynllun Gradd:** | | | **Adran** | | | |
| | | | | | | |
| **Problem hygyrchedd: (e.e. problem symudedd)** | | | | | | |
| **Dyddiad Cychwyn y Cwrs:** | | **Dyddiad Gorffen y Cwrs:** | | **Dyddiad Adolygu'r Holiadur:** | | |
| Os ydych yn aros yn neuaddau'r Brifysgol, cwblhewch y canlynol os yw'r wybodaeth ar gael i chi: | | | | | | |
| **Neuadd:** | | **Bloc:** | | **Rhif Fflat/Rhif Tŷ:** | **Ysta fell:** | |

| **2) OFFER** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ticiwch unrhyw gyfarpar sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd: | | | | | |
| **Cadair Olwyn** | ☐ | **Ffrâm Gerdded** | ☐ | **Arall (nodwch os gwelwch yn dda):** | |
| **Ffon Gerdded** | ☐ | **Ffon Wen** | ☐ | **Nodwch pa mor rheolaidd rydych chi'n defnyddio'r offer a nodwyd:** | |
| **Baglau** | ☐ | **Cymorth Clyw** | ☐ | | |
| **Sgwter Symudedd** | ☐ | **Deaf Alerter** | ☐ | | |

| **3) DADANSODDIAD GOFYNION** | | | |
|---|---|---|---|
| **Gallu gadael adeilad yn gyflym fy hun ar lefel wastad:** | ☐ | Nodiadau: | |
| **Gallu gadael adeilad yn gyflym fy hun trwy fynd i fyny/lawr ychydig o risiau unigol:** | ☐ | Nodiadau: | |
| **Gallu gadael adeilad yn gyflym trwy fynd i fyny/lawr un set lawn o risiau:** | ☐ | Nodiadau: | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gallu gadael adeilad yn gyflym trwy fynd i fyny/lawr setiau niferus o risiau:** | ☐ | | Nodiadau: | |
| **Gallu clywed y larwm tân pan yn effro:** | ☐ | | Nodiadau: | |
| **Gallu clywed y larwm tân pan yn cysgu:** | ☐ | | Nodiadau: | |

## 4) TREFNIADAU YCHWANEGOL GADAEL MEWN ARGYFWNG

**Rhowch fanylion unrhyw drefniadau ychwanegol ar gyfer gadael mewn argyfwng y gallai fod eu hangen arnoch.**

O.N.:

Os oes gennych bryderon ar unrhyw adeg ynghylch gadael adeilad academaidd, siaradwch â'ch gweinyddwr adrannol neu Gynghorydd Hygyrchedd (01970 621761)

Os oes gennych chi bryderon ynghylch gadael eich neuadd breswyl, cysylltwch â Derbynfa'r Campws (01970 622900) neu Gynghorydd Hygyrchedd (01970 621761)

## 5) YMWRTHODIAD A LLOFNOD

Rwy'n ardystio bod fy atebion yn wir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a byddaf yn cadw at yr holl weithdrefnau gadael mewn argyfwng a glustnodwyd ar fy nghyfer. Byddaf yn cysylltu â Chynghorydd Hygyrchedd os bydd fy amgylchiadau'n newid.

Rwy'n rhoi caniatâd i Brifysgol Aberystwyth brosesu'r wybodaeth hon (gan gynnwys gwybodaeth sensitif) ac yn cydnabod y bydd yn cael ei rhannu'n fewnol â staff sydd angen gwybod yn unig. Cymerir bod hyn yn cynnwys staff yn y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr, yr adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ac adrannau eraill lle y gallai fod angen i staff fod yn ymwybodol o’r wybodaeth hon at ddibenion gadael mewn argyfwng.

Rwy'n deall y bydd gwybodaeth am fy anabledd / anghenion cymorth unigol yn cael ei chadw'n gyfrinachol ar ffurf cofnodion papur ac electronig yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y Ddeddf Diogelu Data a deddfwriaeth ac arferion gorau eraill perthnasol.

(**Ar gyfer llofnodion electronig, argraffwch yr enw a thiciwch y blwch priodol**)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw a Llofnod (Unigolyn) | | Dyddiad | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw a Llofnod (Cynghorydd Hygyrchedd) | | Dyddiad | |

Atodiad 2

## CYNLLUN PERSONOL GADAEL MEWN ARGYFWNG

(i'w gytuno gyda'r person ag anabledd)

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Lleoliad | |
| Llawr | |
| Rhif Ystafell | |

## YMWYBYDDIAETH O'R WEITHDREFN

**Rwyf wedi derbyn y weithdrefn gadael mewn argyfwng:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithdrefn Ysgrifenedig | | Dehongliad Arwyddion Prydain | | Mewn Braille | |
| Fformat Sain | | Mewn Print Bras | | | |

## SYSTEM LARWM

**Dull o roi rhybudd os bydd tân**

| | | | |
|---|---|---|---|
| System larwm tân bresennol | | Deaf Alerter | |
| Dyfais larwm tân weledol | | Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | |

## YSTAFELLOEDD YN YR AMSERLEN

Oes gennych unrhyw bryderon am yr ystafelloedd sydd wedi'u neilltuo I chi yn yr amserlen? Ie/Na
Os oes, rhowch fanylion isod

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

| **NODYN: MEYSAU CYFYNGEDIG** | | |
|---|---|---|
| **ARDALOEDD CYMUNEDOL NAD YDYN'T YN HYGYRCH (PENGLAIS):** | **ARDALOEDD Â CHYFARPAR DEAF ALERTER:** | |
| Os ydych wedi cael eich neilltuo i ystafelloedd academaidd a phreswyl hygyrch, peidiwch â cheisio mynd i mewn i'r ardaloedd cymunedol canlynol: | Os ydych yn dibynnu ar beiriant deaf-alerter ar gyfer amseroedd pan ydych yn effro,defnyddiwch ond yr ardaloedd a restrir isod. *Os ydych yn dymuno mynd i mewn i unrhyw le nad yw wedi'i restru, siaradwch ymlaen llaw ag Ymgynghorydd Hygyrchedd yn y Gwasanaethau Cymorth i Fyfrwyr* | |
| | Canolfan y Celfyddydau | Pantycelyn |
| • Lefel F, Llyfrgell Hugh Owen | Carwyn James | Parry Williams |
| • Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol | Cledwyn | Penbryn 1, 2 & 3 |
| | Preswyl Cwrt Mawr | Gwyddorau Ffisegol |
| Os oes angen mynediad I unrhyw un o'r ardaloedd a restrir, cysylltwch ag Ymgynghorydd Hygyrchedd er mwyn gallu trefnu'r cymorth angenrheidiol.<br><br>Os ydych wedi cael eich neilltuo i ystafelloedd academaidd neu breswyl sy'n gwbl hygyrch, peidiwch â cheisio mynd i mewn i ardaloedd lle y gallai fod angen trefniadau gwahanol ar gyfer diangfa mewn argyfwng (e.e lloriau uchaf), heb siarad ag Ymgynghorydd Hygyrchedd yn y Gwasanaethau Cymorth i fyfyrwyr. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd na ellir defnyddio'r liftiau yn ystod tân. | Edward Davies | Bloc Cyfleusterau PJM |
| | Edward Llwyd | Rosser Bloc D |
| | Hugh Owen | Sports Cage |
| | Gwleidyddiaeth Ryngwladol | Canolfan Chwaraeon |
| | Joseph Parry (rhif 10, Laura Place) | Dôm Chwaraeon |
| | Llandinam | Undeb Myfyrywyr |
| | Gwendolen Rees | Llyfrgell Thomas Parry |
| | Hen Goleg | Canolfan Delweddu |
| | P5 | Canolfan Groeso/Cledwyn Spur |
| | Canolfan Addysg Iechyd | Canolfan Addysg Milfeddygol |

**CYMORTH DYNODEDIG: (Enwyd y bobl ganlynol i'm cynorthwyo pan fydd angen i mi adael yr adeilad mewn argyfwng).**

| | |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |

**DULLIAU CYMORTH: (e.e.: system cyfaill, trefn drosglwyddo, dulliau tywys ac ati)**

**OFFER A DDARPERIR**

**TREFN GADAEL: (cofnod cam wrth gam yn dechrau o'r larwm cyntaf).**

**LLWYBR(AU) DIOGEL: (Darparwch ddiagram lle bo angen).**

Mae'r unigolyn wedi cytuno i gyfarwyddo ei hun â'r llwybrau ddianc, fel y nodir yn y PEEP.

IE ☐ NA ☐

Oes angen cymorth ar yr unigolyn gyda hyn?

IE ☐ NA ☐

**YMWRTHODIAD A LLOFNOD**

Rwy'n ardystio bod fy atebion yn wir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a byddaf yn cadw at yr holl weithdrefnau gadael mewn argyfwng a glustnodwyd ar fy nghyfer. Byddaf yn cysylltu â Chynghorydd Hygyrchedd os bydd fy amgylchiadau'n newid.

Rwy'n rhoi caniatâd i Brifysgol Aberystwyth brosesu'r wybodaeth hon (gan gynnwys gwybodaeth sensitif) ac yn cydnabod y bydd yn cael ei rhannu'n fewnol â staff sydd angen gwybod yn unig. Cymerir bod hyn yn cynnwys staff yn y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr, yr adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ac adrannau eraill lle y gallai fod angen i staff fod yn ymwybodol o'r wybodaeth hon at ddibenion gadael mewn argyfwng.

Rwy'n deall y bydd gwybodaeth am fy anabledd / anghenion cymorth unigol yn cael ei chadw'n gyfrinachol ar ffurf cofnodion papur ac electronig yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y Ddeddf Diogelu Data a deddfwriaeth ac arferion gorau eraill perthnasol.

(**Ar gyfer llofnodion electronig, argraffwch yr enw a thiciwch y blwch priodol**)

| Enw a Llofnod (Unigolyn) | | Dyddiad | |
|---|---|---|---|

| Enw a Llofnod (Cynghorydd Hygyrchedd) | | Dyddiad | |
|---|---|---|---|

At ddibenion diogelu data, dylai'r wybodaethhon gael ei chychredeg mewn modd cyfyngedig iawn yn unig. Ar ôl cwblhau, anfonwch gopi o'r holiadur a'r cynllyn wedi'i gwblhau at bobl ganlynol yn unig:

| **Myfyriwr (nad yw'n fyfyriwr preswyl)** | **PEEP Myfyriwr Preswyl** | **Gweithiwr/ Ymwelydd Tymor Hir** |
|---|---|---|
| Yr unigolyn | | |
| Cyfaill lle penodwyd un | | |
| Staff Diogelwch | | |
| Pennaeth Gweithrediadau Academaidd<br>Staff adran (Tiwtor, arolygwr academaidd, cydlynydd Diogelwch Adran) | Rheolwr Preswyl Swyddfa Llety | Rheolwr Llinell/Cyswllt Prifysgol, Cydlynydd Diogelwch Adran. |
| Gwasanaeth Anabledd Cymorth i Fyfyrwyr | | AD |

**Enghraifft o weithdrefn gadael mewn argyfwng**

Mae hwn yn adroddiad cam wrth gam o'r hyn fydd yn digwydd yn ystod yr argyfwng.

- Bydd John a Gale yn cwrdd â mi wrth fy nesg.
- Maria a Mike yw'r gwirfoddolwyr wrth gefn.
- Byddant yn fy helpu trwy ddal un fraich bob ochr.
- Byddwn yn cerdded i'r llwybr dianc agosaf ac yn aros yn y lle ar ben y grisiau i bobl eraill ddianc.
- Pan fydd yn ddiogel, byddwn yn symud i lawr y grisiau yn araf.
- Bydd y warden tân yn rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Tân ac Achub pa lwybr rydyn ni wedi ei ddilyn.

**Atodiad 3**

## Trefniadau Cyffredinol Gadael mewn Argyfwng

| Adeilad | Lloches | System Gyfathrebu Llais yn y Llochesau | Cadeiriau Achub | Gallu gadael yn wastad i wahanol adeilad | Cysylltedd Teclyn Dirgrynu | Gweithrediad Lifft (lle darperir) | Sylwadau Lifft |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Carwyn James | ✓ | ✓ | × | × | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Cledwyn | ✓ | ✓ | × | ✓ - ar lefel 3 | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Edward Llwyd | ✓ | × | ✓ | ✓ - ar lefel 3 | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Edward Llwyd 3.34 | ✓ | × | × | ✓ - ar lefel 3 | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Gwendolen Rees | ✓ | ✓ | × | ✓ - ar lefel 1 | ✓ | | Lifftiau ar gael mewn adeiladau cyfagos |
| Canolfan Addysg Iechyd | | × | × | | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Hugh Owen | ✓ | ✓ | × | Ar gael ar Lefel D | ✓ | Lifft Gadael mewn Argyfwng ar gyfer lloriau C, D ac E | Rheoli gyda cherdyn Aber |
| Hugh Owen B21B | ✓ | × | × | | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Hugh Owen | | | | | | | |
| Hugh Owen | | | | | | | |
| Gwleidyddiaeth Ryngwladol | × – Mynediad gwastad o Lawr 0 a rhannau o lawr 1 | × | × | × | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Llandinam | | | | | | Lifft Cyffredin | |
| Parry Williams | ✓ | ✓ | × | Mynediad gwastad o Lawr 0 | ✓ | Lifft Cyffredin | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | a rhannau o lawr 1 | | | |
| Penbryn 5 | ✓ | ✓ | × | × | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Gwyddorau Ffisegol | ✓ | ✓ | × | × | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Y Ganolfan Chwaraeon | ✓ | ✓ | ✓ | × | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Undeb y Myfyrwyr | ✓ | ✓ | × | | ✓ | Lifft Platfform | |
| Theatr y Castell | × | × | × | | ✓ | Lifft Platfform | |
| Delweddu | × | × | × | × | ✓ | Lifft Cyffredin | |
| Labordai William Davies | × | × | × | × | ✓ | Dim Lifft | |

**Atodiad 4 – Cynllun Cyffredinol Gadael Mewn Argyfwng – Llyfrgell**

Llyfrgell

# CYNLLUN CYFFREDINOL GADAEL MEWN ARGYFWNG (GEEP)

**Pam fod arna i angen gwneud hyn?**

Mae gan y Brifysgol gyfrifoldeb cyfreithiol i roi gweithle diogel i weithwyr, myfyrwyr ac ymwelwyr. Rhoddir dyletswydd gyfreithiol debyg ar ddefnyddwyr y lle hwnnw i weithio ar y cyd â'r cyflogwr ac i ofalu am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys peidio â gwneud unrhyw beth a allai roi eraill mewn perygl a pheidio ag ymyrryd â mesurau rheoli sydd wedi eu cyflwyno er lles iechyd a diogelwch y defnyddiwr.

**RHAN A – Ymwelwyr dan Oruchwyliaeth (gwesteion gwadd sy'n aros yng nghwmni gweithiwr bob amser)**

*Dylai pob ymwelydd sy'n dod i gyfarfodydd busnes yn y llyfrgell gael ei groesawu gan unigolyn dynodedig sydd wedyn yn gyfrifol am sicrhau bod modd i'r ymwelydd adael yn ddiogel mewn argyfwng.*

*Gellid ystyried ymwelwyr rheolaidd â'r llyfrgell fel aelodau staff at ddibenion gadael mewn argyfwng a rhoi eu PEEP eu hunain iddynt.*

## LLEOLIAD

1. Yn ddelfrydol, dylid cynnal cyfarfodydd gydag ymwelwyr sydd ag anhwylder symudedd lle mae mynediad hawdd i ardal balmantog y tu allan i'r llyfrgell fel bod modd gadael mewn argyfwng os oes angen.

   Os nad yw hyn yn ymarferol rhaid i'r Gwahoddwr sicrhau bod opsiynau gadael gwastad addas ar gael.

## YMWYBYDDIAETH O WEITHDREFNAU GADAEL MEWN ARGYFWNG

2. Cyn dechrau'r holl gyfarfodydd sy'n cynnwys ymwelwyr allanol, dylid rhoi eglurhad byr o leoliad yr allanfeydd tân a'r weithdrefn a ddilynir pe bai argyfwng h.y. bydd yr ymwelydd yn cael ei hebrwng oddi ar y safle gan y Gwahoddwr neu ei gynrychiolydd (Cynllun Cyfeillio).

## LARWM ARGYFWNG

3. Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar ymwelwyr sydd ag amhariad ar y clyw i wybod bod y larwm yn seinio. Dylech gyfleu hyn iddynt mewn unrhyw fodd posib ac yna eu hebrwng i fan ymgynnull diogel.

## CYMORTH

4. Wrth glywed y larwm, dylid hebrwng pob ymwelydd o'r safle i fan ymgynnull diogel. Gallai hyn gynnwys gadael ar yr un llawr lle bo hynny'n briodol.

   Dylid rhoi ystyriaeth ddifrifol i leoliad y cyfarfod, yn enwedig os yw'r ymwelydd yn ddifrifol anabl o ran symudedd. Ni fydd lifft y Brif Lyfrgell ar waith pe bai argyfwng a bydd ymwelwyr y mae angen iddynt adael y llyfrgell yn cael eu tywys gan Wardeiniaid Tân i'r llwybrau dianc gwastad o Lefel D ac E neu i'r lifft argyfwng ger ystafell Iris de Freitas

   Ni ddylid gadael ymwelwyr ar eu pennau eu hunain ar unrhyw adeg oni bai eu bod yn dewis gadael y safle ar ôl iddynt adael y llyfrgell.

## RHAN B

## CYNLLUN GADAEL MEWN ARGYFWNG I YMWELWYR: Y Llyfrgell

## MANYLION GADAEL MEWN ARGYFWNG:

Os darganfyddir argyfwng, bydd y larwm yn cael ei seinio trwy'r llyfrgell.

Yna bydd Wardeiniaid Tân y llyfrgell yn archwilio eu hardaloedd penodedig ac yn cynghori holl ymwelwyr y Llyfrgell i adael yr adeilad yn gyflym ac yn dawel. Bydd y Wardeiniaid Tân yn rhoi gwybod i ymwelwyr am y llwybr gadael diogel agosaf a'u cynorthwyo os bydd angen. Rhaid i bobl adael y llyfrgell trwy gyfres o allanfeydd a llwybrau brys. Os bydd ymwelydd yn rhoi gwybod bod angen cymorth arnynt ac nad oes modd iddynt adael y llyfrgell oherwydd anabledd neu amhariad, bydd y Warden Tân yn eu cyfeirio at y Pwynt Lloches diogel agosaf ac yn rhoi cyfarwyddyd iddynt ar beth i'w wneud. Mae Pwynt Lloches yn fan cymharol

ddiogel lle gall ymwelwyr gyfathrebu (trwy alwad gymorth EVC) â'r tîm Diogelwch a fydd yn dod i'w cynorthwyo.

Caiff ymwelwyr sy'n gallu gadael y llyfrgell yn ddiogel eu cyfarwyddo gan Wardeiniaid Tân i lawr i fannau ymgynnull tân y llyfrgell sydd wedi eu lleoli ar y sgwâr o flaen canolfan y Celfyddydau neu yng nghefn Adeilad Hugh Owen. Caiff ymwelwyr eu cyfarwyddo i gadw draw o'r llyfrgell ac i beidio â mynd yn ôl i mewn ar unrhyw gyfrif nes y cyhoeddir bod popeth yn ddiogel.

Ar ôl i Warden Tân archwilio un o loriau'r Llyfrgell, byddant yn rhoi gwybod i gydlynydd, y warden neu'r Swyddog Diogelwch yn y dderbynfa bod eu hardal ddynodedig yn glir ac yn rhoi gwybod os oes unrhyw ymwelydd wedi gwrthod gadael neu os oes unrhyw un mewn Pwynt Lloches angen cymorth. Bydd Wardeiniaid Tân wedyn yn hebrwng ymwelwyr o adeilad y llyfrgell, o'r tu allan i'r brif fynedfa fel arfer i'r man ymgynnull tân.

Bydd adeilad y llyfrgell dan reolaeth y Swyddogion Diogelwch yn ystod ac ar ôl i bawb adael mewn argyfwng.

Y tîm Diogelwch neu'r gwasanaeth tân ac achub sy'n gyfrifol am roi'r gwybod i bawb ei bod yn ddiogel dychwelyd i'r Llyfrgell.

Mewn achos lle bydd pawb yn gorfod gadael ar frys, bydd lifft yr ymwelwyr yn mynd i Lefel D, yn agor ei ddrysau ac yn rhoi'r gorau i weithio.

## OFFER A DDARPERIR NEU SY'N ANGENRHEIDIOL

Darperir Mannau Lloches i Bobl Anabl ar Lefel E ystafell Iris De Freitas yn y llyfrgell. Mae system Galwadau Lloches wedi'i gosod ac ar gael ar bob un o lefelau Adeilad Hugh Owen.

Mae cadeiriau achub ar gael i gynorthwyo ymwelwyr sydd angen gadael Lefel F – mae'r broses hon yn cael ei rheoli a'i rhedeg gan Swyddogion Diogelwch.

## GWEITHDREFN GADAEL:

Wrth glywed y larwm argyfwng, dylai ymwelwyr sy'n gallu gadael y llyfrgell yn ddiogel ddilyn un o'r llwybrau dynodedig i gyfeiriad allanfa dân. Dylai'r gwahoddwr neu Warden Tân eu cyfeirio at yr allanfa ddiogel agosaf. Dylent adael y Llyfrgell i'r Man Ymgynnull Tân – ar y sgwâr o flaen canolfan y Celfyddydau neu yng nghefn Adeilad Hugh Owen.

Pan fydd y larwm yn cael ei seinio, dylai ymwelwyr sydd angen cymorth wneud yn siŵr bod y Warden Tân yn ymwybodol eu bod yno. Bydd y Warden Tân yn eu cyfeirio at yr allanfeydd agosaf ar yr un llawr ar Lefel E.

Mae'n well cyfyngu mynediad i Lefel F y llyfrgell gan nad yw'r Man Lloches ar risiau Lefel F yn cael ei ddefnyddio am nad oes system gyfathrebu yno.

## LLWYBR(AU) DIOGEL:

Pan fydd y larwm tân yn seinio, bydd yr ymwelwyr sydd angen cymorth (nad oes modd iddynt adael yr adeilad eu hunain) yn cael eu cyfeirio gan Warden Tân i'r allanfeydd agosaf ar yr un llawr ar Lefel E.

Cyfrifoldeb y Warden Tân sy'n gyfrifol am Lefel D ac E yw sicrhau bod ymwelwyr sydd angen cymorth yn cael help i adael yr adeilad.

Mae gormod o lwybrau allan o'r llyfrgell dros bum lefel i unrhyw un diagram fod yn ddefnyddiol. Yn lle hynny, dylai ymwelwyr ymgyfarwyddo â'r ardal o'u cwmpas a'r llwybr agosaf allan o'r adeilad wrth eistedd yn y Llyfrgell. Os yn ansicr, anogir ymwelwyr i ofyn i staff y Dderbynfa neu'r Llyfrgell ddangos iddynt lle mae'r allanfa argyfwng agosaf.

## CYNLLUN WEDI EI GWBLHAU GAN:


| Enw | | Adran | |
|---|---|---|---|

**Atodiad 5**

Rhestr o adeiladau a ddefnyddir yn aml gyda mynediad/allanfa ar un lefel:

- Tamed Da
- Canolfan y Celfyddydau
- Y Gromen Chwaraeon
- Canolfan Addysg Filfeddygol
- Y Sgubor

Yn gyffredinol, mae mynediad gwastad i'r adeiladau uchod, felly bydd yn fwy rhwydd i bobl sydd ag amhariad symudedd a phobl anabl ddianc mewn argyfwng. Mae trefniadau yn y mannau hyn yn golygu na fydd angen eu cynnwys mewn ymarferion PEEP yn gyffredinol.



Cyn Cyrraedd - Anfonir holiadur hygyrchedd at bob myfyriwr blwyddyn gyntaf sydd â chodau anabledd penodol (wedi'u cymryd o UCAS). Y myfyriwr i dychwelyd yr holiadur
Ie
Na
Ymgynhorwyr Hygyrched (YH) i wirio'r holiadur
Anfonwch e-bost pellach yn atgoffa'r myfyriwr i estyn allan os oes angen cymorth/ cefnogaeth
Angen addasiad?
Ie
Na
Dim camau pellach
A oes angen ymweliad cyn cyrraedd (h.y. anghenion cymhleth)?
Ie
Na
YH i wahodd y myfyriwr i mewn i drafod gofynion/ cynnal PEEP
YH: Cydlynu dyddiad ymweliad. Dylai'r ymweliad gynnwys Swyddfa Lletty (SL), Iechyd, Diolgelwch & Amgylchedd (ID&A) a'r Adran Academaidd (AA)
ID&A/YH/SL: Cwblhau PEEP os yw'n briodol (Copiau i'r myfyriwr, YH & SL)
Diweddarwyd maes AStRA 'PEEP' i'C' (wedi'i gwblhau)
YH: E-bost i'r Swyddfa Amserlennu Canolog a'r Adran Academaidd gyda manylion
Anabledd dros dro, mater sy'n dod i'r amlwg neu fyfyriwr sy'n dychwelyd
Preswyl
Academaidd
SL: Cydlynu cyfarfod PEEP i gynnwys y myfyriwr, ID&A ac YH
YH: Maes 'Angen Ystafell Hygyrch' wedi'i ddiweddaru ar AStRA (os yn berthnasol)
ID&A/SL: Llofnodi PEEP preswyl (Copiau i myfyriwr, YH & SL)
ID&A/YH: Llofnodi PEEP academaidd (Copiau i myfyriwr, YH & AA)
YH: Pob PEEP wedi'i ffeilio gyda Gwasanaethau Myfyrwyr. Diweddarwyd maes AStRA "PEEP" i "C" (wedi'i gwblhau).
AA: Email to Central Timetabling Office & Academic Dept with details